| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD CYFARFOD** | **29ain o Ionawr, 2020** |
| **TEITL EITEM** | **Datblygiad y Tîm Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a Phroblemus (Tîm YRhN/P)** |
| **AMCAN** | **Hysbysu'r Pwyllgor am ddatblygiad a disgwyliadau allweddol y Tîm YRhN/P** |
| **AWDUR** | **Stephen Wood a Sharron Carter Williams** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Pwyllgor Craffu ar ddatblygiad y Tîm Ymddygiad Niweidiol Rhywiol Niweidiol a Phroblemus (YRhN/P) ar gyfer Gwynedd, gan amlinellu'r rhesymeg i'r tîm a'r hyn yr ydym yn disgwyl ei gyflawni.

1.2 Mae'r Fframwaith Cyfreithiol yng Nghymru sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad rhywiol niweidiol wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 rhan 7 a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Yn ogystal, mae Protocol Cymru Gyfan "Rheoli Plant / Pobl Ifanc sy'n arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol" yn darparu arweiniad ychwanegol i ymarferwyr.

## 2. Cyd-destun

2.1 Pwrpas y prosiect datblygu tîm YRhN/P yw creu tîm integredig amlasiantaethol a fydd yn darparu cefnogaeth ac yn helpu i gydlynu achosion o ymddygiad rhywiol niweidio a phroblemus.

2.2 Mae'r canlynol yn ddiffiniadau swyddogol ar gyfer yr ymddygiadau rydyn ni'n bwriadu canolbwyntio arnyn nhw a datblygu ymyriadau ar eu cyfer;

*'Gall ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, fod yn niweidiol i'w hunan ac eraill, neu fod yn gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall'* - (Hackett. S 2013)

**Ymddygiadau Rhywiol Priodol** –

- yn cael ei arddangos rhwng plant neu bobl ifanc o oedran neu allu datblygiadol tebyg
- adlewyrchu chwilfrydedd naturiol, arbrofi, gweithgareddau cydsyniol a dewisiadau cadarnhaol

**Ymddygiad Rhywiol Problemus** –

- anarferol i'r plentyn neu'r person ifanc neilltuol hwnnw

- o bryder posibl oherwydd oedran, neu wahaniaethau datblygiadol
- o bryder posibl oherwydd y math o weithgaredd, amlder, hyd neu gyd-destun y maent yn digwydd ynddo

**Ymddygiad Rhywiol Niweidiol** –

- gormodol, cyfrinachol, cymhellol, gorfodol, diraddiol neu fygythiol.
- yn cynnwys gwahaniaethau sylweddol o ran oedran, datblygiad neu bŵer sydd o bryder oherwydd y math o weithgaredd, amlder, hyd neu'r cyd-destun y maent yn digwydd ynddo.

2.3 Am nifer o flynyddoedd mae Gwasanaethau Plant Gwynedd ynghyd â'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithio i ddatblygu gweithlu a strategaeth ymarfer sydd wedi eu galluogi i ehangu eu gallu i nodi, asesu a darparu ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd lle mae ymddygiad rhywiol problemus / niweidiol yn bryder.

2.4 Canolbwyntiodd llawer o'n gwaith yn y blynyddoedd blaenorol ar hyfforddi staff ar asesu ac ymyrraeth *GAP AIM* lefel uchel iawn, ac er yn fuddiol rydym wedi cael trafferth nodi a mynd i'r afael â materion yn gynnar.

2.5 Yn ystod yr Archwiliad Thematig Cenedlaethol ar Droseddu Rhywiol o Gyfiawnder Ieuenctid yn 2012, adroddodd arolygwyr;

- *"Mae gormod o gyfleoedd wedi'u colli i ymyrryd yn gynnar mewn achosion".*
- *"Minimeiddio ymddygiad plant ifanc - amharodrwydd rhai gweithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â materion".*
- *"Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff yn wael ar bob lefel o Ofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd".*

2.6 Yn 2017-18 fe wnaeth Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (dan arweiniad Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru) ymgysylltu â NSPCC i ddod yn un o fabwysiadwyr cynnar o'u ***'Fframwaith ac Archwiliad Ymddygiad Rhywiol Niweidiol'***, sy'n ceisio;

*"darparu dull mwy cydlynol o weithredu ar sail tystiolaeth ar gyfer gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn, a chael dealltwriaeth well o sut i wella'r canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc bregus hyn".*

Canfyddiadau Allweddol yr Archwiliad ar ymyriadau oedd;

- *"Ychydig o ymyrraeth gynnar sydd ar gael, yn ymwneud â phrinder asiantaethau sy'n gwneud gwaith ataliol a diffyg gallu i adnabod YRhN"*
- *"Nid yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn adnabyddus nac wedi'i hysbysebu'n dda: Nid yw asiantaethau sy'n gallu gwneud gwaith wedi'i dargedu yn estyn allan at asiantaethau sydd angen gwybod; nid yw asiantaethau wedi bod yn rhagweithiol wrth chwilio am wybodaeth (o bosibl yn gysylltiedig â chydnabyddiaeth) "*
- *"Mae darpariaeth ar sail achos wrth achos ac yn dibynnu ar gapasiti - dim darpariaeth gwasanaeth awtomatig"*

2.7 Roedd yn amlwg o'r holl adolygiadau, archwiliadau a thystiolaeth o gasglu gwybodaeth genedlaethol ein bod, er y gwnaed ymdrechion mawr i sicrhau bod ein rheolaeth o achosion risg uchel a chymhleth gyda darpariaeth asesu ac ymyrraeth dda, wedi colli'r cyfle i ddatblygu ymyraethau cynnar ac ataliol (fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr).

2.8 Yn ogystal, roedd diffygion yn ein gallu i gydlynu gwasanaeth a chefnogaeth ar draws adrannau a sectorau.

## 3. Y Gronfa Gofal Integredig

3.1 Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn arian gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at yrru a galluogi gweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

3.2 Y bwriad yw helpu byrddau partneriaeth ranbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau a modelau darparu gwasanaeth newydd a fydd yn cefnogi egwyddorion sylfaenol integreiddio ac atal.

3.3 Mae gwerthuso a dysgu wrth wraidd y Gronfa Gofal Integredig ac mae'n hanfodol bod unrhyw raglen neu brosiect y Gronfa yn cael eu cynllunio gyda hyn mewn golwg.

3.4 Mae canllawiau'r Gronfa Gofal Integredig yn nodi'n benodol y canlynol:

- Dylai'r CGI gael ei ddefnyddio i weithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac atal yr angen i blant mynd i ofal.
- Bydd yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol weithio o fewn cyd-destun strategol a rennir sy'n cynnwys ac yn gweithio i gyflawni blaenoriaethau gwasanaethau plant awdurdodau lleol.
- Mae dull creadigol ac integredig o weithredu a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n mynd trwy gyfnodau anodd ei helpu i aros gyda'i gilydd ac sy'n osgoi'n ddiogel yr angen am ofal i'w flaenoriaethu.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dulliau rhanbarthol o gefnogi teuluoedd, gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a'r Sector Gwerth Cymdeithasol i gyd yn chwarae rolau allweddol.

3.5 Mae'n anodd esbonio'n llawn yr effaith y mae digwyddiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol yn ei chael ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae gwahanu teuluoedd, cyfnodau mewn gofal, lleoliadau preswyl ac eithrio cymunedol yn aml yn ganlyniad i angen nas diwallwyd, colli cyfleoedd, neu ddiffyg darpariaeth gwasanaeth awtomatig.

## 4. Y Tîm Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a Phroblemus (Tîm Emrallt)

4.1 Mae’r Tîm Gwynedd yn cynnwys;

- **Ymgynghorydd YRhN arbenigol**, ei rôl yw cefnogi a chydweithio ar asesu ac ymyriadau lefel uchel a chymhleth gyda gweithwyr cymdeithasol a staff cyfiawnder ieuenctid, gan sicrhau bod adroddiadau gwybodus o ansawdd da ar gael ar gyfer achosion llys, amddiffyn plant a gofal. Maent hefyd yn darparu trosolwg gweithredol o alw a rheoli risg ar gyfer grwpiau rheoli uwch.
- **Gweithiwr Cymdeithasol,** gweithio gyda staff gwasanaethau plant i ddatblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ar draws sbectrwm o anghenion. Darparu cefnogaeth a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer cefnogaeth ac adnoddau ymyrraeth gynnar ac atal.
- **Gweithiwr Addysg,** darparu cefnogaeth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithiwr addysg broffesiynol, gan sicrhau bod dull cyson o ymdrin ag adroddiadau YRhN/P. Gweithio mewn ysgolion a darpariaethau addysg arbenigol gan hwyluso datblygu ymyriadau ac offer er mwyn cynorthwyo gyda nodi materion a phroblemau yn gynnar.
- **Gweithiwr Iechyd,** gweithio gyda staff iechyd i sicrhau bod dull cyson ac o ansawdd uchel o nodi ac asesu digwyddiadau YRhN/P sy'n gydnaws ag addysg a gofal cymdeithasol. Datblygu strwythurau a rhwydweithiau o fewn gwasanaethau iechyd sy'n sicrhau yr ymdrinnir â materion yn gynnar ac sy'n galluogi trosglwyddo achosion i ymyriadau mwy dwys pan fo angen.

Yn gyffredinol, rydym am weld gweithlu mwy gwybodus a galluog ar draws y gwasanaethau a'r sectorau, mae angen i ni gael ffocws cyson ac o ansawdd uchel ar ymyrryd yn gynnar ac atal gwaethygu i ymddygiadau mwy niweidiol.

4.2 Cefnogir y tîm gan dîm y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer monitro ac adrodd, ac Uwch Dîm Rheoli’r Gwasanaethau Plant (UDRh) ar gyfer cynllunio strategol a chyfeiriad.

4.3 Mae'r Tîm wedi'i leoli gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn Felinheli, lle mae'n elwa o'r strwythurau partneriaeth a rhwydweithiau traws-sector sydd wedi'u hen sefydlu.

4.4 Mae'r uwch dîm rheoli (UDRh) hefyd wedi cychwyn ar ddatblygu Strategaeth YRhN/P ar gyfer Gwynedd fel rhan o'r prosiect, mae hyn yn seiliedig ar Astudiaeth Data a Dadansoddiad GAP a gwblhawyd gan arbenigwr allanol y bydd ei ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r UDRh ym mis Mawrth 2020.

4.5 Mae'r UDRh hefyd yn awyddus i werthuso'r prosiect a'i waith yn ffurfiol, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Phrifysgol Cymru Bangor i sefydlu adolygiad academaidd ar gyfer 2020-21.

## 5. Cyflawniadau hyd yma

5.1 Mae'r holl staff bellach wedi bod ar waith ers mis Medi 2019, gyda Chynlluniau Gweithredu wedi'u datblygu ar gyfer pob un o'r tri maes o ddatblygu ymarfer; Gofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd.

5.2 Mae staff wedi derbyn y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a nodwyd fel rhan o gynlluniau unigol ac yn seiliedig ar eu maes gwaith arbenigol, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda wrth ddatblygu rhwydweithiau a chysylltiadau ar draws ein partneriaethau.

5.3 Mae staff wedi cael cyfle i ymweld â darparwyr sector cyhoeddus a thrydydd sector eraill sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr i arsylwi a dysgu am arfer gorau.

5.4 Mae staff wedi cychwyn gwaith ar greu ymyriadau arloesol sy'n seiliedig ar anghenion, gan ganolbwyntio ar waith adnabod ac atal cynnar. Mae gwaith wedi dechrau i brofi'r ymyriadau hyn ac mae'r gwaith ymgynghori'n parhau gyda phartneriaid.

5.5 Mae'r tîm wedi datblygu pecynnau hyfforddi staff sy'n amlinellu eu rolau a chanlyniadau disgwyliedig y prosiect, gan greu eglurder pwrpas a'r angen am weithio cydgysylltiedig.

5.6 Mae'r Dadansoddiad GAP a'r Astudiaeth Data bellach wedi'u cwblhau, roedd y dadansoddiad o anghenion yn gwerthuso gallu'r gweithlu a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd, tra bod y dadansoddiad data yn adolygu galw cyfeiriadau, lefelau ac astudiaethau achos. O'r canfyddiadau ac yn dilyn craffu gan yr UDRh, crëir Strategaeth YRhN/P ar gyfer 2020-22 a bydd yn gosod y safonau ymarfer darpariaeth rheng flaen a chydweithio partneriaeth.

5.7 Mae’r Ymgynghorydd YRhN a’r Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i ddarparu cefnogaeth arbenigol i weithwyr cymdeithasol a staff cyfiawnder ieuenctid, mae achosion lefel uchel diweddar wedi elwa'n fawr wrth baratoi asesiadau ac adroddiadau ar gyfer y llys.

## 6. Crynodeb

6.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn feiddgar ac arloesol wrth greu ***Tim Emrallt***, mae ymchwil wedi nodi gyda’r asesiad a'r ymyrraeth gywir bod rhwng 87% a 93% o blant a phobl ifanc ddim yn parhau i arddangos DGC / YRhN, gan roi bywyd o ansawdd cadarnhaol posibl ar gyfer y plentyn / person ifanc a'u teuluoedd ac yn bwysig lleihau nifer o ddioddefwyr niwed rhywiol.

6.2 Rydym yn ceisio lleihau y nifer o achosion YRhN sydd yn cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-drin. Byddwn yn gwneud hyn trwy geisio sicrhau bod gennym yng Ngwynedd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ar draws sawl sector mewn gwasanaethau statudol ac ymyrraeth gynnar sydd gyda’r sgiliau addas o wybodaeth a dealltwriaeth o YRhP a YRhN; er mwyn darparu ymyriadau amserol a phriodol, er mwyn atal cam-drin rhag digwydd a lleihau ei effaith.

6.3 Rydym hefyd yn ceisio uwchsgilio a gwella cefnogaeth trwy gyfrwng asesu ac ymyrraeth ar gyfer yr achosion hynny lle mae digwyddiad eisoes wedi digwydd; dioddefwr a

chyflawnwr er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth fwyaf priodol sydd angen arnynt.

6.4 Gwnaeth ein Ymgynghorydd Arbenigol Allanol (sydd gyda 30 mlynedd o brofiad yn y maes gwaith hwn) sylwadau yn ddiweddar;

***"Mae sefydlu tîm YRhN amlasiantaethol Gwynedd fel canolbwynt i gydlynu gwasanaethau arloesol a throsi ymarfer gorau damcaniaethol yn gamau gweithredu yn gyfle gwych i arwain y ffordd ymlaen yng Nghymru".***